



Page 1.



Presented to

President J. D. Richards

by his

Humble servant

The Author

Digitized by the Internet Archive
in 2011 with funding from
Corporation of the Presiding Bishop, The Church of Jesus Christ of Latter-day Saints

ANNERCHIAID

AT

OFFEIRIAID, PARCHEDIGION, PREGETHWYR, A
HOLL ATHRAWON CREFYDD YN NGHYMRU.

AIL ARGRAFFIAD.]

[YR WYTHFED FIL.

BARCHUS FONEDDIGION,—Dwys ystyriaeth o'r pwysigrwydd o addysgu y meddwl dynol mewn pethau a sefydlant ei dyngهد dragywyddol, yngwyneb y ffaith y "dwg Duw bob gweithred i farn," ac mai yr hwn a drosedda un o orchymynion Crist, ac a ddysga i ereill wneyd felly, lleiaf y gelwir ef yn Nheyrnas nefoedd, ynghyd a mawr awydd i chwi ddeall y gwirioneddau dwyfol, llesiol a phwysig a wybyddir genym ni, a'n cymhellodd, i.e, a'n gorfododd i alw eich sylw at yr hyn a ganlyn:—

Y mae Duw wedi anfon cenadwri o'r nef i drigolion daear yn ein dyddiau ni. Na thafiwch y traethawd bach hwn o'ch llaw fel yn annheilwng o'ch sylw; canys y mae yn ffaith fod Duw wedi llefaru drwy anfon un o'i genadon angylaidd i'n daear a chenadwri rasol a phwysig oddiwrtho Ef; mae hyn yn wir, ac yr ydym ninnau yn *gwylbod hyny!* Gwirionedd diwrthbrawf yw hyn, gwirionedd ag y dangosir yn y traethawd hwn y modd y gallwch chwithau ei *wylbod* felly, drwy ffeithiau mor anwrthwynebol â'r rhai a'u profasant i ninnau.

Gwirionedd pwysig yw hefyd, y fod dedwyddwch presennol a thragywyddol pob un a glywo, neu a gaiff gyfle i glywed y genadwri hon, yn ymddibynu ar ei ufydd-dod iddi; ac mai yn ol ei ymddygiad attf y sefydla ei Hawdwr dwyfol hi, dyngهد yr oll a allant ei chlywed. Ar sail y ffaith o fod achubiaeth y byd yn ymddibynu ar eu hufydd-dod i genadwri Duw drwy ei genadon yn yr oesoedd a'r goruchwyliaethau mynedol, cyfadd-efa rhesymeg gymhariaethol gyd-bwysigrwydd y genadwri hon a'r eiddynt hwythau, os gwir ein tystiolaeth, ac nid ydym yn anwybodus o'r anhawsderau sydd ar y ffordd i gredu dwyfoldeb ein cenadwri, eithr y ffaith a brawf nad mwy y gorchwyl nag y meiddiwn anturio arno. Anturiaeth deilwng o anturiwr galluocach mae'n wir, deilwng o holl dalentau dynol ac

angylaidd; o'ch plith chwi ynte, ymdrechwn gael rhai i fwynhau tystiolaeth ddwyfol o'r ffaith hon, ac hyderwn y byddwch allu-
oach i argyhoeddi ereill, sylfaenir ein hyder am lwyddiant ar
eich proffes chwi o onestrwydd egwyddor, cariad at wirionedd,
a'ch awydd i rhyddhau i Dduw ac i achub dynion.

Proffesir mai Heshâd ereill sydd mewn golwg gan bob urdd,
gradd ac enwad yn eu hymdrechiadau crefyddol, a thra y
teimlwn barch i, â chariad at bob ymdrech o blaid daioni yn
gyferbyniol i gydwybodolrwydd yr ymdrechwr, etto, y mae yn
wir rhy eglur i'w guddio, mai gwaeth waeth y dirywia ein
cenedl po fwyaf yr ymdrechiadau a wneir o blaid 'Crist'nogaeth'
yn eu plith; a pho fwyaf a ennillir at y naill blaid lliosocach yw
gelynyon y blaid arall, yr hyn sydd mor andwyol yn ei ddylan-
wad hyd y cyrhaedda ag yw anfoesoldeb cyhoeddus a gwarthus
y rhai ni phrosolytir at y naill na'r llall. Mae ffrwythau
anghrefyddol "crefyddau" ein gwlad, ar ol rhai canrifoedd o gyf-
leusterau i'w profi, yn gorfodi miloedd i wawdio a diystyru
crefydd yn hollol ac i haeru nad oes leshâd i'w gael drwyddi;
ac onid easgliad naturiol, oddiwrth *gynnyddiant* y clefyd yw,
anefeithioldeb y cyffeirian a weinyddir?

Caniataer mai awydd i lesoli eich gwrandawyr a'ch cymhella
i'r oll a wneweb erddynt, eithr pa leshâd a allwch wneyd idd-
ynt oni allwch eu cyfarwyddo i gael crefydd ddwyfol; na pha
fodd y gallwch iawn gyfarwyddo ereill oddieithr eich bod yn
mwynhau crefydd ddwyfol eich hunain? Mae *dwyfoldeb*
crefydd yn profi unigolrwydd crefydd; mae unigolrwydd yr
Awdwr yn profi naill a'i *unigolrwydd* crefyddu eu Ei gyf-
newidioldeb ei Hun. Os na chaniateir yr olaf, gorfodir i gyf-
aldef nad dwyfol, ond dynol, yw yr holl sectau a'r ffurfiau
crefyddol drwy'r byd ond un. Gosodiad amhoblogaidd yw
hwn mae yn wir,—dywediad a ddyry ddiwedd a'r boblogrwydd
yr hwn a'i dywedo; etto, y mae yn hollol resymol ac ysgryth-
yrol, ac yn boblogaidd yn y nef, a chan holl weision anfonedig
Duw ar y ddaear. Pa un o'r oll yw y grefydd ddwyfol, a fyddo
yr ymholiad pwysig, a chaffed ymchwiliad trwyadl a didwyll.
Prawf y gwahaniaeth barnau sydd yn parhau ar ol cymmaint
o ymddadleu, pregethu, ysgrifenu ac esponio, gan gynnifer o
wyr dysgedig ar y pen hwn, nad ffordd anffaeledig yw hono. i
gael gafael a'r grefydd ddwyfol; etto, nid yw yr amrywiaethau

sydd yn rhanu ein cenedl yn groes bleidiau, yn gwrthbrofi unig-olrwydd crefydd, namyn ffeithiau galarus o aflwyddiant yn yr ymchwiliad am dani, ac yn ein cymhell ni i chwilio am dani ar hyd rhyw ffordd arall, yr hyn a wnawn fel y canlyn:—

Cyfaddefir yfod crefydd ddwyfol yn hunan brofiedydd yn yr oesoedd mynedol, addefir hefyd fod anghyfnewidioldeb Awdwr, a dyben crefydd yn profi anghyfnewidioldeb crefydd, yr hyn a orfoda i addef bod amhieuath crefyddwr o ddwyfoldeb ei grefydd yn brawf nad yw hi ddwyfol: y grefydd na ddwg brawfiadau o'i dwyfoldeb nid yw ysgrythyrol, o herwydd ni cheir hanes ynddynt am unrhyw wir grefydd yn un oes o'r byd ond yr hon y profai ei Hawdwr ei dwyfoldeb hi, i bob un o'i hufyddion, drwy ffeithiau eglurhaol; o ganlyniad, rhesymeg wirioneddol yw, mai mwynhâd *presennol* o'r cyffelyb ffeithiau, drwy ufydd-dod i'r cyffelyb ammodau, a fyddant brawfiadau *mor* gadarn o ddwyfoldeb y grefydd a'u dygant *yn awr* a'r pryd hyny; canys pe gau y grefydd ni chymmeradwyid hi gan yr Hwn *yn ahig* a ddichon gyflwyno dwyfol brawfiadau gwir grefydd: ei gymmeradwyaeth Ef o honi, ac nid tybiau na barnau doethlineb ddynol a fyddo ein safon i brofi pa un yw y wir grefydd, o'r oll a broffesant fod yn gyfryw.

Pa brofion a ystyrir yn ddigonol o ddwyfoldeb crefydd? A ofynir am weled gwyrth i'r dyben hyny? Y rhai hyny a haerant mai dyben gwyrthiau oedd argyhoeddi anghredinwyr, a ddylent, er bod yn gysson â'u hunain, wneyd gwyrthiau er argyhoeddi y byd o ddwyfoldeb eu gwahanol sectau croesbleidiol ac anysgrhythol eu hunain; canys ni chaniatawn ni mai gwneuthur gwyrthiau o flaen y byd yw ffordd Duw o argyhoeddi dynion; ond, ffordd y diafol yw ceisio argyhoeddi drwy weled gwyrthiau, efe oedd y cyntaf un a ofynodd hyny gan ein Harglwydd;—"Os Mab Duw ydwyf arch i'r garreg hon fod yn fara," ebe efe; eithr, "dôs-o'm hôl i Satan," oedd atebiad ein Harglwydd iddo, er mor rhesymol yr ymddanghosai ei gais i'r byd yn mhob oes o hono. Nid oes hanes am neb yn gofyn am arwydd er profi crefydd ond y cymmeriadau a gondemnir gan eu cydoeswyr o fod yn ddynion drwg: "Cenedlaeth ddrwg a godinebus, sydd yn ceisio arwydd," ebe Crist, a chan na cheir un enghraifft o'i fod Ef na neb o'i weision wedi ufyddhan i Anghrist, y prif arwydd geisiwr, mor bell a gwneyd gwyrth i'w boddio,

nid felly, ebe rhesymeg gymbariaethol, y profir dwyfoldeb crefydd yn awr. Gan mai a'r Dduw yr ymddibynir am y prawfiadau, rhesymol yw ceisio y prawfiadau hyny yn ol yr ammodau ar ba rai eu haddawir, a'r ffordd hono oedd "drwy ffolineb pregethu" cenadwri, [ac nid drwy roddi arwyddion] "y gwelodd Duw yn dda gadw y rhai sydd yn credu" yr hyn a *glywent*, ac nid credu yr hyn a *welent*. Mae ffydd yn anheborol er cadwedigaeth, heb ffydd amhosibl yw rhyngu bodd Duw, a sicrhâ yr ysgrythyrau y fod ffydd yn dyfod drwy *glywed* gair Duw, ac nid trwy *weled* gwyrthiau. Prophwydir yn yr ysgrythyrau y daw yr amser pan y gwna y diafol "arwyddion a rhyfeddodau mawrion," hyd y nod, y tyn dân i lawr o'r nefoedd yngwydd dynion er profi mai gweision Duw yw ei weision ef, ac mai dwyfol yw eu cenadwri, yr hyn a brawf y gallai efe felly dwyllo y byd i gredu y gau yn wir, os gwneuthur gwyrthiau er arwyddion yw y ffordd i brofi dwyfoldeb crefydd. Eithr y mae mor eglur nad dyna y ffordd gywir, fel nad ymhelaethwn, ond cynnygiwn ffordd a ystyriwn yn hawddach, byrach ac eglurach o lawer, fel y canlyn:—Cyfaddefir gan holl Feibl-gredwyr, y mwynheid bendithion na allasai neb ond Duw eu cyflwyno, gan ufyddion y grefydd a addefir yn safon o wir grefydd gynt, a bod y bendithion hyny yn gyfryw ag na chaniataent i'w meddiannydd ammheu eu bodoldeb, ag na chaniatai ei reswm iddo ammheu dwyfoldeb y gyfyndrefn a'u rhoddodd yn ei feddiant; ac ni chaniatâ rheswm nac ysgrythyr i neb ammheu dwyfoldeb y grefydd a ddygai iddo yntau fwynhâd cyffelyb o'r cyffelyb fendithion yn awr.

Gan na anfoddlona neb a gredant yr ysgrythyrau,—a gredant anghyfnewidioldeb Awdwr crefydd, ynghyd a'r ffaith athroniaethol fod y deddfau disyfl a lywodraethant ei holl greadigaeth Ef. yn cyssylltu pob effaith wrth ei achos hanfodol, ni anfoddlona y rhai hyny i benderfynu y pwnc pwysig hwn yn ol yr hyn a geir yn yr ysgrythyrau. Beth a ddywed yr ysgrythyrau oedd addewidion gwir grefydd? Ni raid dyfynu o honynt yr hyn a *raid* fod mor hysbys i chwi ag yw yr addewidion gwerthfawr a lliosog ag a frithant eu tudalenau, ac ni ddysgwylir mewn llythyr mor fyr a hwn ond cyfeiriad atynt yn unig. Addawodd Awdwr mawr a Sefydlwr gwir grefydd y caffai ei ufyddion fwynhau dylanwadau ei Ysbryd Ef yn nerthol, effeithiau y r

hwn a fyddai eu dwyn hwy oll i “undeb y ffydd,” i gyd weled â'u gilydd mewn egwyddorion, ordinhadau, dyledswyddau a bendithion crefydd, drwy eu bod hwy oll yn cyd-weled ag Ef, y safon: achosai yr Ysbryd hwn hwy i garu eu gilydd â chariad dwyfol, o herwydd y cariad a fagai yn mhob un o honynt at wirionedd, a'r hwn a'u cymhellai oll i gyd ymdrechgu â'u gilydd i ddwyr erejll i'r un Eglwys drwy wneyd yr un pethau, ac nid yn groes i'w gilydd i wahanol eglwysi, drwy wneyd pethau gwahanol; cyd-dystiai â'u hysbryd hwy eu bod yn blant i Dduw, drwy gyflwyno iddynt ddadguddiadau o'i ewyllys Ef—drwy ei ddoniau a chyflawniad o'i addewidion i'w blant yn unig, yr hyn a symmudai bob ammheuaeth o'u meddyliau o barthed i eu perthynas â Duw, ac o ganlyniad, a symmudai drwy hynny bob ammheuaeth o bart'ed i'r gyfyndrefn yr ufyddhasent iddi. Amrywiol oedd y ffyrdd y dylanwadai arnynt yn ol eu tystiol-aethau eu hunain, eithr ei effeithiau yn mhob modd oedd eu tebygoli iddo Ef, yn gyfesur i rym y dylanwadau hynny; ar rai prydiau eu llygaid a welent olygfeydd ysplenydd o'r nefoedd a'i gogoniant, yr hyn ni allai llygaid anysbyrdoledig eu gweled; portreadai ger eu gwydd bethau mynedol a dyfodol o barthed iddynt eu hunain, eu gilydd, teuluoedd, cennedloedd, oesau, a'r byd, yn hanesyddol, gwladwriaethol, a chrefyddol, yr hyn yw gweledigaethau. Oni fyddai mwynhâd o'r cyffelyb yn profi i chwithau mai dwyfol y grefydd a'u rhoddodd? Oni orfodid y galon i dystio, “dyma grefydd *ddwyfol*,” tra yr enaid yn pèr lewygu yn nysglaerdeb gogoniant y fath olygfeydd?

Gorlenwai yr Ysbryd hwn hwynt ar brydiau nes y defnyddiai eu tafodau i lefaru ieithoedd angylaid, ac i draethu dirgeledigaethau yr Arglwydd, y rhai oeddynt anwybodus iddynt hwy heb hynny, yr hyn yw “llefaru â thafodau newyddion.” Yr un Ysbryd a ddylanwadai ar arall i gyfieithu y llefariad hwnw yn yr iaith ddeallus i'r gwyddfodolion, a thrwy hynny adeiledid hw y yny ffydd—gorfoleddent yn yddwyfol gymmeradwyaeth o honynt hwy a'u gwasanaeth drwy ymddarostyngiad eu Tad i gyfrinachu â hwynt felly, a chreai ynddynt benderfyniad adnewyddol i ufyddhau i'r gorchymynion a gaffent drwy hynny yn llin ar lin, yma ychydig, ac mewn cyfarfod Eglwysig arall ychwaneg wed'yn, yr hyn yw “cyfieithad tafodau.” Pa fodd y dychon neb a fwynhauai y ffeithiau hyn ei hunan ammheu yr

achos o honynt? Wel, dyma brawfiadau dwyfol eglurhâol crefydd. Byddai hyn yn ddadguddiadau uniongyrchol oddi wrth Dduw, i'w rhagrybuddio o beryglon a'u harosent, a'r dull i'w gochelyd, yn gysurol dan brofedigaethau, yn llawenhau eu calonau, yn cynnyddu eu cariad a'u gobeithion, ac yn cadarnhau eu tystiolaethau blaenorol, a'r oll yn eu santeiddio yn barhaus. Pan y byddent yn glaf, yr Ysbryd hwn, drwy eu hymarferiad ffyddiog â'r moddion ordeiniedig a'u hadferau i iechyd, oddieithr bod y cyfryw afiechyd i farwolaeth. Dyma oedd rhai o fendithion y grefydd a gyfaddefir yn ddwyfol ar sail ysgrythyrol; nid yw anwybodus i ni, yr ymgais a wnaed ac a wneir i argyhoeddi y byd o afreidiolrwydd y bendithion hyn yn awr, ac mai eu dyben y pryd hynny oedd "er sefydlu Cristionogaeth," yr hyn baeriadau a brofasom yn anysgrhythrol ac afresymol, mewn traethodau a elwir yr "*Ilen Grefydd Newydd*," yr "*Eugrawn Ysgrythyrol*," a manau ereill, fel na raid ymhel-aethu yma, ond dweyd y byddai y mwynhâd o'r bendithion hyn yn awr i chwi eich hunain yn ffeithiau mor anwadadwy o'r anghen o honynt, fel na chreddech haeriadau holl ddynion byd eu bod yn "afreidiol."

Foneddigion! Pwy yn eich plith, a fedd a gariad at wirionedd —ât hunan les, neu a fedd a awydd am leshâd ereill ar na ddymunai â'i holl galon fwynhau y bendithion dwyfol hyn ei hunan, ar nad ymbleserai yn cyfarwyddo ei wrandawwyr i fwynhau yr unrhyw fendithion a'r unrhyw brofion o ddwyfoldeb eu crefydd? Pwy a ddichon feddwl fod *ffurfiau* heb y *sylweddu* hyn yn well yn awr? Na phwy a ddichon ddwys ystyried y pwysigrwydd o'r bendithion hynny a fwynheid gan y Saint cyntefig heb ocheneidio o'i galon i'r nef ei ddymuniad am eu cael? Argraffed Ysbryd y gwirionedd y dymuniad yna ar yr enaid fel na ddilêr hyd nes ei chael; canys, tystiolaethwn mewn sobrwydd, a sicrhawn mewn gwirionedd fod y grefydd ddwyfol hono a ddygai y bendithion rhag-gyfeiriedig i'w hufyddion gynt wedi cael ei *hadferyd* o'r nef i ddynion yn *ein dyddiau ni*, ac y fod eu hufyddion hi yn *mwynhau* y cyflawniad o'i haddewidion yn awr megys y pryd hynny, a'n bod NI yn GWYBOD hynny! At y grefydd hon y crefwn am gael eich sylw manwl, eich hymchwiliad treiddgar iddi, a'ch cydymffurfiaid â'i holl ofynion; yr hyn os gwnewch, tystiolaethwn yn

ddyfrifol yn enw a thros ei Hawdwr dwyfol hi, y dyry Efe, ac nid hyni, dystiolaeth i chwithau megys ag y rhoddodd i nin-nau, drwy ddim llai na mwynhâd o'r cyffelyb doniau, mai gwir Eglwys Dduw yw yr hon eich gwahoddwn yn serchus i ddyfod iddi. Dyma ffordd dêg—ffordd råd a chyrhaeddadwy i bawb i brofi dwyfoldeb ein crefydd; ni ddywedodd neb erioed, ac ni ddywed neb rhesymol a fwynhaodd y doniau hyn, mai gweled gwyrthiau yw y ffordd oreu i argyhoeddi y byd o ddwyfoldeb cenadwri; am hynny, dywedwn hyn wrthyich, un ac oll, deuwch a gwelwch fod doniau a ffrwythau gwir grefydd *yn awr i'w cael yn Eglwys y Duw byw*, ac nid *tu allan i'w mhuriau*. Nid yn unig deuwch a gwelwch, ond deuwch a *chlywch*—deuwch a *theimlwch*—deuwch a chwi eich hunain a'u mwynhawch fel mai byw y Duw a'u haddawodd; ac fel mai byw yr Hwn a esgynodd i'r uchelder, ac a roddes y rhoddion hyn i'w Eglwys, y mae Efe yn eu cyfranu *yn awr i'w blant*. Pa wiw dadleu yn hwy—pa wiw ammheu gosodiad mor bendant, mor hawdd ei brofi trwy *ffeithiau*, yn wir neu yn gau? Nid gwiw dadlau o barthed i grefydd, canys nid *dynol* yw—eithr Duw sydd i brofi ei grefydd Ef yn wir yn mhob oes; ni bu yn ngallu *dyn* erioed i'w *phrofi* i'w gyd-ddyn, nac yn ngallu dyn na diafol erioed ei phrofi hi yn gau. Os ammheuwch ein tystiolaeth dewch a phrofwch hi drwy yr unig ffordd ddichonadwy, sef, drwy ei phrofi eich hunain yn amddifad o'r bendithion a addawwn, ac nid drwy haeriadau dibrawf a chwedlau anwireddus ein gelynon. Mae ein tystiolaeth o bwys digonol i deilyngu eich ymchwiliad iddi; canys prawf mai genym ni y mae Unig Wir Eglwys Dduw, a bod allan o honi yw bod yn amddifad o wir grefydd, yr hyn a'ch amddifadai o fywyd tragywyddol. O'r ochr arall, os gau yw, dyma y ffordd i'w phrofi hi yn gau; ac felly, nid oes achos dadleu dim o barthed i'n crefydd, ac nid oes raid i neb yn y wlad aros mewn petrusder meddwl a'i gwir a'i gau yw hi, o herwydd prawf ei Hawdwr hi i'w ei hufyddion gwirioneddol mai dwyfol yw, ac ni all ei hanfyddion, pe meddent ddoethineb y byd i gyd, ei phrofi yn gau.

Nid rhesymol a fyddai troi clust fyddar at y dystiolaeth hon, gan ddweyd mai haerllugrwydd a rhyfyg yw; rhyfygu a wnel-em pe na thystiolaethem, yn sóbr, yn eglur, ac yn bendant am yr hyn a *wyddom*,—yr hyn a fwynhawwn; rhyfyg a fyddai i ni

beidio tystiolaethu yr hyn a orchymyna Duw i ni wneyd, a rhyfygu a wnelem pe yr elem allan yn enw yr Arglwydd i ddysgu pobl i grefydda *cyn* i ni *wybod* ei fod Ef wedi ein danfon, yr hyn, *wedi ei wybod* a fyddai yn rhyfyg i beidio a'i ddweyd. Felly, y mae y rhyfyg tybiedig, yn yr iawn ystyriaeth o hono, yn rheswm annogaethol i'n credu, o herwydd mai gwybodaeth o'r ffaith ag y tystiwn am dani a ddyry i ni y fath anymddibyniaeth,—y sicrwydd a feddwn o'n dwyfol ddanfoniad a'n cymhella i addaw y bendithion hyn, a'r mwynhâd o honynt a wnelai i chwithau dystiolaethu yn llawn mor bendant ag y gwnawn ninnau: wrth yr amheuwyr, os ceir un, dywedwn, "*Tyred, a gwel.*"

Nid rhesymol yw diystyru y dystiolaeth hon, gan ddweyd mai *cael* ein twyllo i gredu y pethau hyn yr ydym; o herwydd, nid ar *gredinieth* y seilir ein tystiolaeth, ond ar *wybodaeth*, yr hyn a wnaed i ni wybod drwy ffeithiau hunan-egllur, nerthol, a sylweddol, ac nid trwy fympwy na phenboethni. Nid oddiwrth ddynion na'r diafol y deilliasant, o herwydd y mae y naill a'r llall yn elyniaethus iddynt, ac yn gwadu yr anghen a'r defnyddioldeb o honynt. Mai bendithion o'r nef ydynt a brofir drwy eu bod yn deilliaw ar ol, ac nid cyn, nac heb, ond drwy ein hufydd-dod i orchymynion y nef: ni fwynhasom ni erioed mohonynt, na dim yn debyg, hyd nes *wedi* i ni ufyddhau i orchymynion y gyfyndrefn ag y galwn eich sylw ati. Mae y ffaith y collir y bendithion hyn pan y troseddir ei gorchymynion hi, hefyd yn profi mai mewn cysylltiad â hi y mwynheir hwynt. Mae natur a dyben y bendithion yn profi eu dwyfoldeb, ac o ganlyniad, os ein twyllo a gawn, y nefoedd a'n "twylla," a goreu po fwyaf o'r fath "dwyll," hyd nes ein "twyllir" i fwynhau y cyflawnder o'i bendithion a'i gogoniant. Etto, mae y bendithion hyn yn deilliaw i ni drwy ufydd-dod i'r grefydd a ddarlunir yn yr ysgrythyrau, ac y maent mor debyg i'r bendithion a fwynhauai y Saint cyntefig yn ol yr hanes ysgrythyrol, fel nad allwn fod yn cael ein twyllo heb eu bod hwythau wedi cael eu twyllo, ac yn ein twyllo ninnau i'r unrhyw dwyll. Hefyd, y maent hwy yn proffesu eu bod wedi rhagweled yr anfonid eenadwri *fel* yr hon a draethwn ni,—wedi gweled eu hufyddion yn mwynhau y bendithion a fwynheir genym ni, ac wedi eu gweled, drwy yr hyn a broffesai fod yn Ysbryd y Brophwydoliaeth, yn cael eu diys-

tyru, eu camddarlunio, a'u cenadwri yn cael ei hamharchu am dwyll, a hwythau yn cael eu difenwi â'r enwau drwg a elwir arnom ni, a hyny gan y rhai a broffesant fwyaf o barch i grefydd, a'r rhai a ddylent fod yn flaenaf a'r mwyaf awyddus i dderbyn y genadwri a anfonid; gwelsant hyn oll, a llawer mwy manwl y gwelsant, drwy yr Ysbryd a feddent, yr hyn bethau ag y tystiwn ni am eu cyflawniad yn awr; ac felly, rhaid mai â'r cyffelyb' dwyll ein twyllwyd ni a hwythau, a'n bod mewn dosparth a ystyrir yn bobl eirwir a didwyll: diolchwn am y fath dwyllwyr yn gwmniaeth, a thwyllledd i'n cysuro, ac hyderwn y cawn fwynhâd tragwyddol o'r cyflawnder o'r fath dwyllledd gyda hwynt, lle na bydd neb yn tynnu yn groes. Gan mai credu y gau yn wir yw twyll, nid allwn ni fod yn cael ein twyllo, o herwydd nid *credu* yr hyn a ddywedwn yr ydym, ond ei *wybod*, ei *weled*, ei *glywed*, a'i *deimlo* drwy gyfrwng ein holl synwyrâu, nes arddelwi y ffaith ar ein henaid tu hwnt i'r posibilrwydd o gamsyniad; ac felly, yn lle cael ein twyllo, os nad gwir ein *tystiolaeth*, rhaid mai twyllwyr ydym,—twyllwyr o'r fath waethaf.

Etto, os twyllwyr ydym, y twyllwyr ffolaf o bob twyllwyr ydym, o herwydd y gosodwn ein gwrandawwyr ar y ffordd i'n profi felly, rhoddwn y glorian yn eu dwylaw i'n pwysu, ac yr ydym ynddi o hyd, ac er's blynyddau, ac os cafwyd ni yn brin o bwysau y gwirionedd, yr ydym ni yn anwybodus o hyny hyd yn hyn. Nid allwn fod yn dwyllwyr heb fod yn gwybod hyny ein hunain; a phe byddem yn gwybod hyny, a roddem ni addewidion i'n hufyddion na ddichon arall ond Duw eu cyflawni; a'r rhai hyny yn gyfryw na ellir bod yn amddifad o honynt heb wybod hyny, ac oni rag-welsemy profasai yr amddifadrwydd o honynt mai gau oedd yr addewid, ac o ganlyniad, mai twyllwr a'u rhoddes? Onid canlyniad anocheladwy yw hwn, ag oni ofoda ein rheswm ninnau i ragweled mai felly y byddai; ac a ni yn rhag-weled hyny a addawsem ni y caffai ein hufyddion y cyfryw fendithion? Ni chredwn y cafwyd enghraifft o'r fath ffolineb mewn un twyllwr erioed oddieithr ei fod yn wallgof amlwg; ac felly, os twyllwyr ydym, yr ydym yn dwyllwyr gwyrthiol, o herwydd ein bod yn anghydmorol yn oesau y byd. Os twyllwyr ydym ag sydd wedi bod uwchben torfeydd lliosog o bobl ddoethion "yr oes oleu hon," o gŵr bwy gilydd i'r wlad, yn addaw

ïddynt ddoniau yr Ysbryd Glân, a miloedd yn ufyddhau ac yn aros gyda ni wedi hyny, yn colli eu henwau da, eu bywiolaethau, weithiau, yn dyoddef pob math o ŵg, gwawd, dirmyg a difenwad, pan y maent wedi bod, y naill neu y llall, yn dal pob swyddau, yn troi yn mhob cylehoedd, yn mhob crefydd arall ag sydd yn y wlad, ac etto, yn parhau i ddyoddef yr oll, er mwyn twyll gwybodus iddynt, tra y mae eich diwydrwydd chwi yn eich ymgeisiadau i'w troi yn ol, yn dangos mai er eich gwaethaf yr arosant, a ninnau yn parhau o hyd i'w herrio, un ac oll, i egluro y twyll i ni, ac yn methu cael ond ffeithiau i brofi ynddynt, eu bod yn cael eu boddioni, mai gwirionedd a addawsom, o herwydd y fod Duw wedi cyflawni ein haddewid drwy gyflwyno iddynt hwythau yr hyn a addawsom. O, na, nid tebyg i iaith twyllwr yw yr hyn a ddywedwn, tebycach i dwyll a fuasai myned oddiamgylch i berswadio dynion, *nad* yw y bendithion hyn i'w cael, ac "*nad* oes eu heisien;" tebycach a fuasem o guddio twyll wrth ddweyd *nad* oes tystiolaeth o ddwyfol gymmeradwyaeth, *na sicrwydd* o wir grefydd i'w chael, mai ofer chwilio am dani; hawddach y gallasid twyllo drwy addysgu egwydderion mwy poblogaidd a pheidio a rhoddi i'r bobl addewid o brawf hyd nes y byddont yn afon angeu; canys, ni byddai o les i ni roddi yr addewid, oddieithr iddynt gael y cyflawniad o honi, ond yn unig lles iddynt hwy ddeall y twyll, os twyll yw. Heblaw hyny, dibyna ar y rhai a haerant mai twyllwyr ydym, i brofi, oddiwrth ein gweithredoedd, y fod ein cyd-wybodau wedi eu serio i'r eithafion ag a fyddai yn ofynol er haeru y fath afresymoldeb, ac nad oes ynom ofn Duw na pharch i ddyn, na gofal am ein heneidiau ein hunain, yr hyn sydd orchwyl mor anmhosibl iddynt wneyd ag yw gwrthbrofi dwyfoldeb ein crefydd.

Etto, os twyllwyr ydym, rhaid fod genym rhyw ddybenion gau y rhai a gelwn o tan y ffûg;—Beth ydynt? Pwy a'u hamlyga? A'i elwa? Ni feiddir meddwl ein bod am elwa tra y pregethwn yn rhâd heb ofyn dim, ond a ewyllysir roi, yr hyn ni fyddai ond rhy ychydig i'w ceisio oddiwrth rai a dwyllwyd genym! Dywedir mai tlodion y wlad yn unig a'n credant, nid allant hwy gyfoethogi mo honom lawer; ac os eu twyllo a gânt, pahan y tystia nid yn unig ein pregethwyr, ond yr aelodau, gwryw a benyw, hen ac ieuanc, cyfoethog a thlawd yr un peth,

a phaham y tystia y rhai mwyaf duwiolfrydig yn gadarnach na'r rhai mwy ffaeledig, na phaham y cyfranant eu harian i dystio eu cydwybodolrwydd yn y peth?

Nid poblogrwydd a chlôd a ddichon fod mewn golwg, onide argyhoeddased ni er's blynyddau. drwy wêg a gwawd y byd, ein bod wedi camsynied y ffordd i boblogrwydd yn hollol, ac ni fuasem mor ffol a dilyn yn mlaen, ac ni chlybuwyd am un erioed a ennillodd glod y byd wrth ddweyd a ddywedwn, ac wrth wneyd a wnawn, a rhyfedd os ystyrir ni oll yn rhy ffol i ragweled mai amnhoblogaidd a fuasem ninnau wrth bregethu yr hyn a ystyrir yn amnhoblogaidd yn mhob oes a gwlad! O, na, nid haeru twyll, ac nid twyllwyr ydym. ond y wybodaeth a feddwn o ddwyfoldeb ein crefydd a achosa i ni, i.e. *a'n gorfoda* i dystiolaethu, *anghenrhaid* a osodwyd arnom, *a gwae ni oni wnaen hyn*; cariad atoch, ac awydd i chwi a'ch gwrandaawwyr. drwyddoch chwi, gael y bendithion dwyfol a gynnygir i chwi, yw ein dyben yn eich cymhell i'r ymchwiliad. Gwyddoch na buasem mor afresymol â dweyd hyn oddieithr ei fod yn wir. o herwydd os gau, y buasai yn amhosibl ei guddio: ac felly, y mae y rhesymoldeb o'n tystiolaeth yn teilyngu ymddiried.—ei gwrthodiad a ddyry gondemniad.

Afresymol yw gofyn i *ni brofi* dwyfoldeb ein cenadwri, o herwydd nid dynol yw, ni allodd dynoliaeth erioed brofi dwyfoldeb; ni allodd neb ond Duw *brofi* dwyfoldeb unrhyw genadwri a anfonodd i'r byd; ac afresymol yw gofyn prawf ganddo Ef, ond yn y ffordd a drefnodd. Ni allwn ni, ni allodd un gwas i Dduw erioed *brofi* amgen nag ymresymu a thystiolaethu yr hyn a wyddai; hyn a wnaethom, ac a wnawn, a chyfarwyddwn chwithau i'r ffordd antfaeledig i gael gan Dduw *brofi* i chwithau mai gwir ein tystiolaeth, drwy rodri i chwithau yr un dystiolaeth. Afreidiol i ni ddyfynu ysgrythyrau ag sydd mor wybodus i chwi, er profi pa fodd i gael y dystiolaeth hon, o herwydd y mae y rhai hyny wedi cael eu gwyrddroi gymmaint drwy esponiadau a deongliadau priod, fel na therfynai dadleu, mwy nag y mae y ffordd yna wedi dwyn y croesbleidiau a'i dilynant i undeb y ffydd: gan na ddaethant, ofer dysgwyl y deuant yn y ffordd yna, etto, gwyddom am ffordd sicrach o lawer:—ar eirwiredd ein tystiolaeth, rhaid ein bod ni yn *gwybod* yn anymddibynol ar bob cyfarwyddydd a gawsom o'r ysgrythyrau,

ac yn anymddibynol ar bob dyn byw, pa fodd, neu wrth wneyd pa bethau y cawsom ni hyn ein hunain, ac o ganlyniad nid gwiw dadleu ar hyn ychwaith. Gan y dyry Duw dystiolaeth i'r sawl a wnêl fel y dywedwn ni, ac na roddodd Efe yr un dystiolaeth i neb a ddysgant yn groes i ni, *rhesymol* yw credu yr hyn a ddywedwn, ac o herwydd hefyd na ddywedwn ond yr hyn a *wyddom*. Gwyddom fod hyn yn wahanol i'r ffyrdd a ddysgir gan ereill, eithr gwyddom hefyd mai dyma yr unig ffordd y dysgai holl genhadon Duw, ac os beir ni am hyn, beir ein Harglwydd hefyd drwy hyny am wneyd yr un fath, canys, Efe a roes y rheol hon i lawr:—"Os ewyllysia neb *wneuthur* ei cwyllys ef, efe a gaiff *wybod* am y ddysgeidiaeth, pa un ai o Dduw y mae hi, ai myfi o honof fy hun sydd yn llefaru."—Ioan vii. 17. Pa iaith mwy didwyll, mwy dwyfol brofedig na hon, a allasai, hyd y nod yr Iesu geirwir lefaru? Anmhosibl i dwyllwr, nae i un dyn o hono ei hun ddweyd y fath beth; ac etto, twyllwr yw pob *pregethur* na all ddweyd yr un peth, a rhoddi y cyffelyb addewid o'r cyffelyb *wybodaeth*. Yr hwn nid yw yn gwybod ddarfod i Dduw ei ddanfôn, ni ryfyga ddweyd hyn; eithr yr hwn â wŷr ei ddanfoniad, ni ryfyga *beidio* a dweyd hyn er boddio byd, na chael ei olud; o herwydd i ddweyd hyn, ac i ddangos i'r byd pa fodd i gael y wybodaeth hon ei danfonwyd; a gwelir yma brawf o'r egwyddor a ddysgwyd yn flaenorol, sef, y fod *gwneuthur* yr hyn a orchymynir yn anhebgorol er cael y wybodaeth; ac nid oes addewid y rhoddai Duw wybodaeth yn mlaen, neu cyn *gwneuthur*, ac nid gwneuthur ein hewyllys ein hunain, ond Ei ewyllys Ef. A dyma yw yr hyn a ewyllysia i chwi wneuthur, a phawb yn mhob man, y galwir arnynt:—Credw yn uwylfol ddanfoniad, croeshoeliad ac adgyfodiad ei Fab Ef, Iesu Grist,—edifarhau am eich holl wrthryfel yn ei erbyn, gyda phenderfyniad i'w wasanaethu Ef o hyn allan,—cymmeryd eich bedyddio gan ei genhadon Ef mewn dwfr er maddeuant pechodau, ac wedi hyny, drwy arddodiad dwylaw Henuriaid Ei Eglwys, *chwi* a dderbyniwch *ddawn yr Ysbryd Glân!* Yn awr dywedwyd,—dyma y ffordd a drefnodd Duw, anrhydedda Efe y ffordd hon drwy gyflwyno yr Ysbryd Glân o'r uchelder yn ei wahanol ddoniau, megys yr addawodd Iesu Grist, pan ar y ddaear. Nid gwiw gwrthod y ffordd hon heb ei phrofi, a hōni cred yn yr ysgrythyrau wed'yn, o herwydd y

mwynhâd o'r Ysbryd hwn a brofai y ffaith, fel o'r ochr arall, yr amddifadrwydd o hono a brawf *nad* Eglwys Dduw yw y fan lle *ni* cheir Ef.

Foneddigion,—dyma dystiolaeth gywir i chwi, er eich mwyn eich hunain, er mwyn y rhai a wrandawant arnoch, ac er mwyn gogoniant y Duw sydd yn galw arnoch, drwyddom ni ufyddhewch, profwch, a mwynhewch grefydd a *grym*, ynddi,—crefydd a *brawf* eich mabwysiadu drwyddi yn blant i Dduw, a'r hon a leinw eich calonau a deng-mil mwy o lawenydd, goleuni, a dedwyddwch nag a feddyliasoch erioed ei gael ar y ddaear, a'r hon a'ch cyfoethoga ag anchwiliadwy olud y nef yn dragywyddol. Gadawn y dystiolaeth sobr a'r addewid an-mhrisiadwy yna gyda chwi, gwnewch y defnydd a fynoch o honi, delir chwi yn gyfrifol am y canlyniad, nid oes a esgusoda y gwrthodiad o honi, o flaen y frawdle lle y rhaid i ni gyfarfod wyneb yn wyneb, a llygad yn llygad.

Na wrthodwch ein cenadwri, o herwydd yr ymddengys i chwi rai o'i hathrawiaethau yn newydd neu yn groes i'ch meddyliau, o herwydd, felly yr ymddanghosodd pob athrawiaeth ddwyfol i'r meddwl dynol, hyd oni chafwyd eglurhâd, a rhesymol i'r rhai a ddysgwyliant gyrhaedd hyd berffeithrwydd gwybodaeth i gael cyfraith Duw yn "llin ar lin," canys, heb hyny ni allant *gynnyddu*. Ac hefyd sicrhawn yr eglurhâ Ysbryd Duw i bob un a ufyddhâo i'r genadwri hon, mai dwyfol yw yr egwyddorion hyny a ymddangosant mor groes i ddoethineb ddynol, ac yna pa raid ofni? Pa reswm eu gwrthod heb eu profi.

Na chondemniwch ein cenadwri o herwydd yr ystorïau a draethir, a bregethir, a gyhoeddir, ac a ganir drwy ein gwlad, a'r byd, yn erbyn cymmeriadau y cyfryngau a ddewisodd Duw alw i'w thraddodi i'r byd; canys, nid yw yn rhesymol credu ystorïau gelynyon am bersonau tra y mae Duw yn cynnyg profi yn groes i hyny drwy arddel eu cenadwri. Nid gwir y cyhuddiadau a ddygir yn erbyn y personau hyny: er nad oes neb o honynt yn profesu bod, ond dynion ffaeledig, etto, y mae yn *urybodus* i ni mai anwireddau yw yr oll a ddarllenafom ac a glywsom yn ddrwg am Joseph Smith a blaenoriaid ereill yr Eglwys hon. Ein rheswm dros yr haerïad hwn yw, o herwydd i ni gael blynyddau o amser i chwilio i mewn i wreiddiau yr ystor-

iau hyny, gan mwyaf lle y tarddasant, a'u cael yn anwireddus; —o herwydd gael adnabyddiaeth bersonol a thrwyadl a'r person "dirmygiedig" hwnw, mewn gwahanol gylchoedd a than amrywiol amgylchiadau yn deuluol, cyfrinachol a chyhoeddus, a chael digon o ffeithiau, drwy ei weithredoedd adnabyddus, i brofi mai dyn addfwyn, gostyngedig, bucheddol, a duwiol oedd efe; ac yn enwedig, ac fel *ansffaeledig* brofion o hyn, tystiwn mai gwas i Dduw, yn bucheddu yn deilwng o'r cymmeriad anrhydeddus, ac yn ymgais at wasanaethu Duw ydoedd efe, o herwydd y fod Duw o'r nef, yn cyflawni ei adlewidion ef i ni ac i'r oll a ufyddhasant i'r grefydd a ddysgai. Ni allwyd dweyd felly am un *twyllwr* erioed. Nid allwn ni gredu ei fod ef y dyn ag yr ymdrechir gael gan y byd gredu ei fod; ac ni allwn beidio a chredu yn groes i hyny, o herwydd Ysbryd Duw a'n gorfododd; a pheidio credu hyny a fuasai credu ei elynion yn hytrach na chredu Duw, yr hyn ni allwn wneyd, serch bod hyny, ar eirwiredd Duw, yn gwneyd ei holl gylhuddwyr yn gelwyddog.

Amlwg yw oddiwrth ydrechiadau diflino ein gelynion i chwilio y byd, a'i Newyddiaduron mwyaf llygredig, am gamgylhuddiadau yn erbyn personau, y credant y byddai hyny yn gwrthbrofi dwyfoldeb ein cenadwri; eithr, amheurn ni gywirdeb y fath dybiaeth: tra y caniatawn fod dynion yn ystyried grym tystiolaeth yn gyferbyniol i'w barn hwy am gymmeriad y tyst, etto, ni chaniateir na all tyst anghywir am *rai* pethau dystiolaethu yn gywir a chredadwy am bethau *ereill*, yr hyn, ynddo ei hunan, a brawf dueddolrwydd cyfeiliornus, y rhesymeg. Ond, meddir, ar eirwiredd y cyhuddiadau gwarthus a draethir yn erbyn Joseph Smith ac preill, seilir ein crediniaeth nad gweision Duw ydynt, o herwydd na arddelai Efe y fath ddynion llygredig. Ond, meddwn ninnau, gan ddyfod yn nes at wreiddyn y ddadl yna, y mae geirwiredd eich tystion chwithau yn ei erbyn yn dibynu ar eu cymmeriadau hwy, yn ogystal ag yw geirwiredd ei dystiolaeth yntau o ddwyfoldeb ei genadaeth yn dibynu ar ei gymmeriad, yr hyn a'n harweinia i chwilio pa fath rai yw ei gylhuddwyr, ai rhai amhleidiol ydynt? Dywedir eu bod yn bobl grefyddol, duwiolfrydig, a santaid iawn, ac y mae gan luoedd o honynt deitlau o uchelradd, o bob plaid ac enwad tu yma a thu draw i'r moroedd, megys,—Parchedigion, Esgobion, Offeiriad, Vicariad, Curadiad, Ath-

rawon, Pregethwyr lu, a rhestr o'r D. D's., A. B's., B. A's., &c. Ystyrir mai yn y teitlau hyny mae grym tystiolaeth; ond a wyddys, onid oedd byddin mor liosog, o rai mor dduwiol a selog, a chynnifer o deitlau mor anrhydeddus yn ardystio y cyffelyb gyhuddiadau yn erbyn pob gwás a anfonodd Duw i'r byd braidd, heb eithrio ei Unig-anedig Fab, na'i apostolion ar ei ol! Y mae lle i feddwl hyny yn yr ysgrythyrau, a sicr yw mai yn mhlith y dosparth yna yw y lle annhebycaf i gael y gwir am gymmeriad un o wahanol grêd; o herwydd, ennilla gwás Duw ddigofaint yr anonestion o honynt trwy dystio yn erbyn eu twyll a'u cyfeiliornadau, ac wrth eu galw i edifarhau a dychwelyd i'r ffordd iawn; a'r rhai mwyaf rhith grefyddol a fyddant y mwyaf selog i ddinystrio cymmeriad y tyst a dystiai yn eu herbyn hwy, gan gredu y gallent felly rwystro y werin i'w gwrandaw yn dynoethi eu twyll hwynt.

Afresymol condemnio neb a broffesant fod yn genhadon Duw o herwydd cyhuddiadau eu gelynyon yn erbyn eu cymmeriadau, canys, prawf yr hanesion ysgrythyrol mai felly y gwnelai y byd â chenhadon Duw yn mhob oes a gwlad o hono; ac felly, yn lle bod yn wrthbrofion, y mae y cyhuddiadau hyn, a'r sail rhesymeg gyffelybiaethol, yn profi mai yr un genadwri yw hon, sydd yn cynhyrfu y byd i'w difenwi a'i chamgyhuddo yn awr, ag oedd hono gynt a addefir yn ddwyfol serch ei bod yn cael ei gwrthwynebu yn yr un modd.

Yr ydym wedi ymdrechu yn ol ein gallu er's blynyddau i argyhoeddi y wlad o ddwyfoldeb ein Cenadwri, yr ydym wedi cyhoeddi gwrthbrofion i'r holl ystorïau anwireddus a'r camgyhuddiadau a glywsom yn erbyn y grefydd hon, a'r rhai a gamgyhuddir o'i herwydd, drwy resymau teg, tystiolaethau geirwir gan lygaid dystion dibroffes, ac y mae ein hamddiffyniadau yn awr a'r led y wlad hyd y gallwn eu dosparthu; eithr y mae pregethwyr a Golygyddion mor barod i gredu anwireddau, a'u sicrhau yn wirionedd o'u pwlpuadau a'u cyhoeddiadau, fel y mae braidd mor anhawdd cael gan y werin i wrandaw na darllen ein hamddiffyniadau ag oedd i Paul wneyd i'r Ephesiaid glywed ei lais ynghanol y fonllef hono,—“Mawr yw Diana yr Ephesiaid;” un peth a gwaeddi ar rnod cynddeiriog dônau y mor i ddystewi,—neu ymresymu ynghanol rhuad magnelau a thrwst arfau tra yn gymmysgiedig a gryddfanau tranciedigion yw ceisio gan y rhai a gredant yr ystorïau gwarthus a daenir am danom i chwilio i'n hanes a'n tystiolaethau ein hunain. Dysgir o bwlpuadau i anfon plant a'r ein hol i wban a gwneyd sôn fel y bodder ein lleisiau lle y pregethir yn debyg fel y gwaeddai y plant gynt, “dôs i fynu moelyn” ar ol y Prophwyd pan yn traethu cenadwri, nid mwy dwyfol na'r eiddom ninnau. Rhybuddia pob enwad eu gwrandawwyr bod perygl dyfod i'n gwrandaw, a diarddelir am hyny weithiau; darlithir yma a thraw yn ein herbyn gan *elynyon*, a phob amser camgyhuddir ni a'n crefydd, a gwrthodir caniatâd i ni amddiffyn. Chwychedi

a ddylech fod y rhai blaenaf yn y wlad i chwilio i mewn i'r genadwri a broffesa ddyfod oddiwrth Dduw, yn gymmaint a'ch bod yn profesu bod yn arweinyddion y bobloedd, rhag ofn y ceir chwi fel yr Ysgrifenyddion, neu Saul o Tarsus, drwy sêl gau yn gwrthwynebu Duw.

Na rwystred anhoblogrwydd tybiedig yr enwad hwn i chwi dderbyn y genadwri ddwyfol hon; gwyddoch mai anhoblogaidd yr ystyriai y byd a'i holl grefyddwyr cyfoesol bob cenadwri ddwyfol a ddaeth i'n daear. Gan fod crefydd yn boblogaidd, y grefydd oreu a ddylid ystyried yn fwyaf poblogaidd mewn gwirionedd; a chan fod y grefydd hon yn addaw mwy bendithion nag a addawa un arall paham nad hon yw y mwyaf poblogaidd? Gwyddom mai hon yw y fwyaf poblogaidd yn y nef, a'r grefydd a debygola ddyn i'w Dduw—*safon* anffaeledig *gwir* boblogrwydd, a ddylid ystyried yn fwyaf poblogaidd gan ei holl addolwyr Et ar y ddaear; etto, cyd-ddyoddefyddion a'i Hawdwr yn ei gwarth daearol hi a goronir â gwir boblogrwydd gydag Ef. Gan eich bod chwi yn boblogaidd deuwch a'ch poblogrwydd gyda chwi ynte, er anrhydeddu gwir Eglwys Crist: *chwychwi, nid nynt*, a allwch, o herwydd diflanodd ein poblogrwydd ni drwy ei derbyn hi. Felly os beius ei hanhoblogrwydd, arnoch chwi y mae y bai!

Nid awydd i brosolytio na chael yr *eiddych* a'n cymhell i'ch aunerch fel hyn, bydded rhyngddoch chwi a'ch gilydd am eich *cyflogau*, eich *capeli*, a'r *eiddych*, nid ymofynwn hwynt; eithr yn enw, a thros y Duw a'n danfonodd, erfyniwn arnoch dderbyn y genadwri rasol hon a ddaunfonodd Duw i chwi, a desnyddiwch y dylanwad a roddes Efe i chwi er argyhoeddi yr oll a allwch i'w derbyn, fel eich cymmoder chwi a'r *eiddych* â Duw, ac y mwynhaoch yr *undeb*, y *variad*, y *llawenydd*, y *sicrwydd*, a'r *holl fendithion* a ddymuna eich calonau. *Taer* erfyniwn eich cynorthwy *chwi* i hyn, o herwydd y fod yn eich dwylaw *chwi* allweddau calonau miloedd na allwn ni gael eu clustiau; o ganlyniad, wrth eich drysau *chwi*, y gorplwys y cyfrifoldeb am eneidiau eich gwrandawwyr oni wnewch hyn! *Mae Duw yn gofyn hyn genych*,—ac yr ydym ni yn GWYBOD, ac yn TYSTIO hyn!

Bellach terfynawn ein "Hannerchiad," gan ddyfal weddio ar fod Awdwr dwyfol y genadwri a draethwn, drwy Ysbryd y gwirionedd, yn agor eich llygaid i weled y pwysigrwydd o ufyddhau iddi, fel yr achuber eich eneidiau ac y gwneler chwithau yn genhadon dros Dduw i achub ereill, hyd oni ddelo holl garwyr gwirionedd drwy ein gwlad yn blant i Dduw, ac yn etifeddion o sylweddoldeb crefydd Crist, yr hyn yw prif amcan yr ymdrech presennol a dymuniad euaid,

Eich gostyngedig was,

D. JONES.







